LC319

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoli ar ba delerau y mae meddygon yn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r diwygiadau'n dileu cynhyrchion penodol ar gyfer therapi disodli nicotin o'r rhestr o gyffuriau na ellir eu rhagnodi o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae Rheoliadau i'r un perwyl wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr a daethant i rym ar 17 Ebrill 2001 (OS 2001/1178). Nid yw'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi cyflwyno adroddiad ar unrhyw bwyntiau yn rheoliadau Lloegr (Sesiwn 2000-01, 15fed Adroddiad).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

Er hynny, nodir bod "(Cymru)" wedi'i hepgor o benawdau'r testun Cymraeg, er bod rheoliad 1(1) yn gywir yn hyn o beth.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

17 Gorffennaf 2001